



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2022 Rhif 800 (Cy. 177)

2022 No. 800 (W. 177)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig
(Terfyn Cyflymder 20 mya)
(Cymru) 2022**

**The Restricted Roads (20 mph
Speed Limit) (Wales) Order 2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae adran 81(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (“y Ddeddf”) yn darparu na fydd yn gyfreithlon i berson yrru cerbyd modur ar ffordd gyfyngedig yn gyflymach na 30 milltir yr awr. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adrannau 82 ac 84(3) o'r Ddeddf, mae ffordd yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o'r Ddeddf os darperir arni, yng Nghymru a Lloegr, system o oleuadau stryd drwy gyfrwng lampau sydd wedi eu gosod heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd. Mae adran 81(2) o'r Ddeddf yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol (sef Gweinidogion Cymru o ran Cymru yn unol ag adran 142(1) o'r Ddeddf), drwy orchymyn, i gynyddu neu ostwng y gyfradd gyflymder a bennir gan adran 81(1), naill ai fel y'i deddfwyd yn wreiddiol neu fel y'i hamrywiwyd o dan yr is-adran honno. Mae adran 81(3)(aa) o'r Ddeddf yn darparu bod gorchymyn o'r fath, os y'i gwneir gan Weinidogion Cymru, i'w wneud drwy offeryn statudol a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru. Cyn i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan adran 81(2) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol gan adran 81(5) o'r Ddeddf iddynt ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 81(2) o'r Ddeddf. Mae'n gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig o 30 milltir yr awr i 20 milltir yr awr o ran Cymru.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Section 81(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (“the Act”) provides that it shall not be lawful for a person to drive a motor vehicle on a restricted road at a speed exceeding 30 miles per hour. Subject to the provisions of sections 82 and 84(3) of the Act, a road is a restricted road for the purposes of section 81 of the Act if, in England and Wales, there is provided on it a system of street lighting furnished by means of lamps placed not more than 200 yards apart. Section 81(2) of the Act enables the national authority (being the Welsh Ministers in relation to Wales pursuant to section 142(1) of the Act) by order to increase or reduce the rate of speed fixed by section 81(1), either as originally enacted or as varied under that subsection. Section 81(3)(aa) of the Act provides that such an order, if made by the Welsh Ministers, is to be made by statutory instrument and approved by a resolution of Senedd Cymru. Before the Welsh Ministers make an order under section 81(2) of the Act, they are required by section 81(5) of the Act to consult with the Secretary of State.

This Order is made by the Welsh Ministers under section 81(2) of the Act. It reduces the general speed limit for restricted roads from 30 miles per hour to 20 miles per hour in relation to Wales.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Diogelwch ar y Ffyrdd, Yr Is-adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu 20mya@llyw.cymru

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from: Road Safety, Transport Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or 20mph@gov.wales

2022 Rhif 800 (Cy. 177)

2022 No. 800 (W. 177)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig
(Terfyn Cyflymder 20 mya)
(Cymru) 2022**

**The Restricted Roads (20 mph
Speed Limit) (Wales) Order 2022**

Gwnaed 13 Gorffennaf 2022

Made 13 July 2022

Yn dod i rym 17 Medi 2023

Coming into force 17 September 2023

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 81(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ac ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol fel sy'n ofynnol gan adran 81(5) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 81(2) and (3) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), and after consultation with the Secretary of State as required by section 81(5) of that Act, make the following Order.

Mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru yn unol ag adran 81(3)(aa) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

A draft of this Order has been approved by a resolution of Senedd Cymru in accordance with section 81(3)(aa) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

Title, application and commencement

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022.

1.—(1) The title of this Order is the Restricted Roads (20 mph Speed Limit) (Wales) Order 2022.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Medi 2023.

(3) This Order comes into force on 17 September 2023.

Gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig

Lowering of the general speed limit for restricted roads

2.—(1) Mae'r gyfradd gyflymder a bennir gan adran 81(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig) wedi ei gostwng i 20 milltir yr awr.

2.—(1) The rate of speed fixed by section 81(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (general speed limit for restricted roads) is reduced to 20 miles per hour.

(1) 1984 p. 27.

(1) 1984 c. 27.

(2) Yn unol â hynny, mae'r cyfeiriad yn adran 81(1) o'r Ddeddf honno at "30 miles per hour" i'w ddehongli fel pe bai'n gyfeiriad at 20 milltir yr awr.

(2) Accordingly, the reference in section 81(1) of that Act to "30 miles per hour" is to be interpreted as a reference to "20 miles per hour".

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
13 Gorffennaf 2022

Minister for Climate Change, one of the Welsh
Ministers
13 July 2022

©Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Jeff James,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/800>

ISBN 978-0-348-39339-2



9 780348 393392